



## **NEINIAU’N rhedeg yn wyllt drwy’r dref wrth i ddigwyddiadau am ddim ddychwelyd i Stryd Fawr y Rhyl.**

Daeth Granny Turismo â’u trolis siopa a’u gweithgareddau gwallgo i’r Rhyl.

Roedd dawnio gwyllt y neiniau yn rhan o September Sizzler Cyngor Tref y Rhyl – yr hwylddydd cyntaf i’w gynnal ers yn gynnar yn 2020.

Hefyd, roedd yna fôr-ladron ar stiltiau, gwneuthurwyr swigod anferth, artistiaid syrcau, cerflun byw o Charlie Chaplin, band drymio Batala, Pwnsh a Jiwdi a gemau glan y môr yn rhan o’r hwyl.

Gwnaeth y plant sbectol haul gwirion, mwynhau peintio cerrig a helpu i greu darn o gelfyddyd glan y môr i’w gadw gan y gymuned leol.

Dyma’r hwylddydd cyntaf i’r teulu a gynhaliwyd gan faer y Rhyl, y Cyngorydd Diane King.

Meddai: “Mae’r Cyngor Tref wedi cyflwyno digwyddiadau cymunedol am ddim am rai blynyddoedd bellach. Roeddem yn deall yr angen i ganslo cynlluniau 2020 ond roeddem yn siomedig o orfod gwneud, er hynny. Nawr rydym yn ôl gyda diwrnod gwych gyda chymaint o hwyl, gemau a digrifwch pur.

“Y September Sizzler oedd ein ffordd ni o ddiolch i bobl y Rhyl am eu hamynedd a’u gwytnwch yn ystod y pandemig a dod â’r amser da yn ôl.”

O gyngerdd Syr Tom Jones gan Gyngor Sir Ddinbych i’r neiniau direidus, dywedodd y Cyngorydd King ei bod wedi bod yn wythnos dda o adloniant i’r Rhyl.

**Mwy/...**



-2-

“Mae’r Cyngor Tref wrth ei fodd yn llwyfannu digwyddiadau ac yn falch iawn o allu dychwelyd ar ôl bwlch o 18 mis. Yn amlwg, mae newidiadau i’r dull o gyflwyno digwyddiadau nawr, ond mae yn bosibl rhoi diwrnod hen ffasiwn o hwyl i bobl, hyd yn oed gyda rhai cyfyngiadau. Gobeithio, bydd hyn yn ddechrau i amseroedd gwell a hwb mawr ei angen i bobl a busnesau’r Rhyl,” ychwanegodd y Cyngorydd King.

### Capsiynau

**Credyd llun:** Gunsmoke Communications

- Neiniau gwallgof Granny Turismo yn y dref
- Nain ar fynd
- Ahoi: Môr-ladron ar stiltiau yn cadw llygad ar bethau.
- Dyna mae sut gwneud pethau: Maer y Rhyl, y Cyngorydd Diane King gyda Pwnsh a Jiwdi a’r ambarel ‘that’s the way to do it’
- Y Cyngorydd King a’r artist Scott yn gweithio
- Teleri Rigg yn pefrio ar ôl cael peintio ei hwyneb
- Nevaeh Jones-McNeil yn crefftio gyda’i chwaer Marley-Jai Jones-McNeil
- Codi het i Charlie Chaplin
- Y Cyngorydd Diane King yn rhoi cynnig ar droelli platiau

### Diwedd

